**COFNODION Cyfarfod Cyffredin Cyngor Cymuned Llandybïe, a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Y Stryd Fawr, Llandybïe, ac arlein drwy gyfrwng Zoom, ar ddydd Mercher, Ebrill 24ain, 2024 am 6. 30 yh**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Presennol:** | | | |
| Cynghorwyr | Y Cyng D. Thomas | Y Cyng C. R. Thomas | Y Cyng H. Davies |
| | Y Cyng D. W. Hopkins | Y Cyng E. W. Nicholas | Y Cyng A.J. Evans |
| | Y Cyng P. H. Roberts | Y Cyng S. E. Thomas | Y Cyng J. Tandy |
| | Y Cyng E. Davies | Y Cyng G. J. Davies | |
| **Yn mynychu arlein:** | Y Cyng K. D. L. Davies | Y Cyng A. W. Jones | Y Cyng S. Roberts |
| **Ymddiheuriadau:** | Y Cyng I. Rh Llewelyn | Y Cyng R. Barnes | Y Cyng R. A. Davies |

**438.**

**Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.**

Y Cyng R. A. Davies, Y Cyng R. A. Barnes, Y Cyng I. Rh. Llewelyn

**439.**

**DATGANIADAU O FUDDIANT.**

**Dim.**

**440.**

**COFNODION**

Rhoddwyd ystyriaeth i Gofnodion y cyfarfodydd canlynol fel y'u dosbarthwyd hwy:

- Cofnodion y Cyfarfod Cyffredin a gynhaliwyd ar Fawrth 27ain, 2024.
- Cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Fawrth 27ain, 2024.

**441.**

**MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Roedd un sylw; roedd y Cynghorydd S. E. Thomas wedi gofyn am eglurhad ynghylch presenoldeb y Cynghorydd A. W. Jones yn y Cyfarfod Cyffredin blaenorol.

Cadeirydd

Roedd y Cynghorydd A. W. Jones wedi cadarnhau ei fod wedi gadael y cyfarfod o ganlyniad i signal gwael a diffyg sain, a'i fod wedi gadael neges i'r perwyl hwnnw ar Zoom Chat.
Cadarnhawyd hyn gan y Cynghorydd E. Davies a oedd hefyd wedi profi anhawster ac a oedd, ynghyd â'r Clerc, wedi nodi'r sylwadau ynghylch yr angen i adael y cyfarfod.

Derbyniwyd yr eglurhad yma gan y Cadeirydd.

**442.**

**CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**

Dim.

Digwyddiad yn ysgol Gyfun Dyffryn Aman.
Roedd y Cadeirydd wedi mynegi ei sioc a thristwch yn dilyn y digwyddiad yn Ysgol Gyfun Dyffryn Aman yn gynharach yn y dydd, a gofynnodd i'r Cynghorwyr os oedd modd anfon llythyr o gefnogaeth at yr ysgol ar y fath adeg anodd iawn.

**Penderfynwyd** bod y Clerc yn llunio llythyr; bydd y Cadeirydd yn ychwanegu ato, ac yn ei anfon at yr ysgol.

**443.**

**GOHEBIAETH**

**(i) Adroddiadau'r Heddlu ar Fawrth 1af, 2024**

| **Ardal Llandybïe** | |
|---|---|
| Trais a Throseddau Rhyw | **0** |
| Difrod Troseddol a Llosgi Bwriadol | **0** |
| Ymddygiad gwrth-gymdeithasol | **1** |
| Meddu ar Arfau | **0** |

| **Penygroes, gan gynnwys y Blaenau a Chaerbryn** | |
|---|---|
| Ymddygiad gwrth-gymdeithasol | **1** |
| Y Drefn Gyhoeddus | **0** |
| Difrod Troseddol a Llosgi Bwriadol | **0** |
| Cyffuriau | **2** |

| **Saron a Chapel Hendre** | |
|---|---|

Cadeirydd

| | |
|---|---|
| Trais a Throseddau Rhyw | 0 |
| Difrod Troseddol a Llosgi Bwriadol | 0 |
| Ymddygiad gwrth-gymdeithasol | 0 |
| Y Drefn Gyhoeddus | 0 |

Er gwybodaeth i'r aelodau a'r cyhoedd, mae ffigyrau Trosedd Ardal Cymuned Llandybïe ar gael drwy ddefnyddio'r ddolen isod. Roedd y Clerc wedi argymell bod yr aelodau yn astudio map trosedd eu hardal, gan ei fod yn cynnig peth manylion ynghylch y ffigyrau trosedd drwy chwilio'r adran 'yn fy ardal i'.

[Llandybie | Police.uk (www.police.uk)]

Roedd y Clerc wedi cadarnhau y byddai'n Swyddog Heddlu Cymunedol lleol, yng nghwmni Swyddog Heddlu Cymunedol newydd, yn mynychu'n cyfarfod nesaf pe byddai'r patrwm shifft yn caniatau. Nid oeddent yn gallu mynychu'r cyfarfod heno oherwydd y digwyddiad difrifol yn Ysgol Gyfun Dyffryn Aman.

**(ii) Llythyr oddiwrth Neuadd Goffa Penygroes.**

Roedd y Clerc wedi darllen llythyr a dderbyniwyd oddiwrth Neuadd Goffa Penygroes yn diolch i'r Cyngor Cynmuned am y dyfarniad grant gwerth £4,000 a dderbyniwyd yn dilyn Cyfarfod y Pwyllgor Cyllid ym mis Chwefror. Roedd yr aelodau wedi nodi, â phleser, derbyn y diolch.

**444.**

**Adroddiad y Clerc 24/04/24**

**AT: Gadeirydd ac Aelodau'r Cyngor.**

**(a) Parciau:**

**(i) Saron a Chapel Hendre Adran 106.**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddiweddariad ynghylch y ddau swm, sef £22,320.00 ar gyfer darpariaeth addysg at y dyfodol yn Saron, a £17,680.00 ar gyfer Parc Cwmgwili.

**(ii) Hyfforddiant Arolygu'r Parciau.**

Erbyn hyn mae'r Clerc a'r Swyddog Gweinyddol wedi cwblhau'r Hyfforddiant Arolygu Parciau Cyffredinol a Gweithredol.

**(iii) Siglenni mewn dau barc ym Mhenygroes.**

Cadeirydd

Mae’r rhain wedi’u harchebu ac mae’r Clerc wedi gofyn bod y gwaith yn cael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mai 2024.

**(b) Llwybrau Troed. Nid oes unrhyw ddiweddariadau ynghylch y Llwybrau Troed isod, ag eithrio 61/106.**

Mae’r Clerc a’r Swyddog Gweinyddol yn dal i wasgu ar dîm y Cyngor Sir ynghylch y llwybrau troed canlynol, ac yn bwriadu cadw’r rhain yn Adroddiad y Clerc tan eu bod wedi’u datrys.

- **Bonllwyn 61/106;** Mae Tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus Cyngor Sir Caerfyrddin yn trafod gyda’r tirfeddianwr ynghylch dargyfeirio’r llwybr, a chael y tirfeddianwr i wneud y gwaith o ail-osod y llwybr eleni; bydd y gwaith yn cynnwys gosod pontbren fechan a chamfeydd, a defnyddio peiriant torri i ail-sefydlu’r llwybr troed.
- **Caerbryn 51/56;** Mae’r Clerc yn parhau i wasgu ar y Tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus sydd wedi ymrwymo at atgyweirio’r bontbren. Maen nhw’n honni bod y difrod i’r llwybr wedi’i achosi gan ddŵr yn llifo oddiar y briffordd. Erbyn hyn, mae’r Clerc wedi ysgrifennu unwaith eto at dîm Priffyrdd Sir Gaerfyrddin i gychwyn deialog, ac mae’r Swyddog Gweinyddol wedi dilyn hyn i fyny gyda chais am ddiweddariad.

**Sylwadau:** Roedd y Cynghorydd D. Thomas wedi gofyn bod y Clerc yn dilyn hyn i fyny drwy holi’r cyngor ynghylch cynnydd mwy brys, ac roedd y Clerc wedi cytuno cysylltu â Thîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus y Cyngor Sir.

- **Penygroes 51/34, 51/35 a 51/33;** Tra bod ein contractwr yn ystyried 51/34, mae tîm cyfreithiol Cyngor Sir Caerfyrddin yn archwilio 51/33 er mwyn cael y perchennog i dorri’r canghennau sy’n bargodi dros y llwybr; mae’r Clerc wedi ysgrifennu at Adran Gyfreithiol Cyngor Sir Caerfyrddin i ofyn am ddiweddariad. Mae 51/35 yn dal i gael ei ystyried fel rhan o ddatblygiad Gilfach Iago. Mae’r Swyddog Gweinyddol wedi dilyn hyn i fyny drwy ofyn am ddiweddariad.
- **51/51**; Mae tîm cyfreithiol Cyngor Sir Caerfyrddin yn dal i ddelio â hyn oherwydd bod preswylydd wedi adeiladu sail i garej ar draws yr hawl tramwy cyhoeddus, ac mae preswylydd arall wedi gosod offer chwarae drosto
- **51/24;** Mae’r Cadeirydd, Carey Thomas, wedi amlygu’r llwybr troed hwn, ac mae’r Cyngor Sir wedi ymweld â’r safle a darganfod bod y tirfeddianwr wedi gwneud peth gwaith ar dir cyfagos; bydd tîm cyfreithiol y Cyngor Sir yn archwilio’r sefyllfa.

**(c) Archwiliad Allanol Blynyddol 2022/23:**

Wedi iddo ymateb i’r holl ymholiadau a dderbyniwyd hyd yn hyn, mae’r Clerc yn aros am gadarnhad terfynol oddiwrth Swyddfa Archwilio Cymru.

Cadeirydd

**(ch) Clwb Rygbi Penygroes a chloi'r gât gyda'r nos.**

Roedd tri Chynghorydd Cymuned wedi cyfarfod yn y Parc, a chytunwyd gofyn i'r contractwr cyfredol sy'n agor a chloi toiledau Penygroes os oedd arno awydd gwneud y gwaith yma ac, os oedd, i gyflwyno pris am wneud.

Erbyn hyn mae'r Clerc wedi derbyn cadarnhad oddiwrth Gyngor Sir Caerfyrddin, sef y tirfeddianwyr, eu bod yn hapus ein bod ni, mewn cytundeb â menter Cwm Gwendraeth, yn cloi'r gât.

Mae Menter Cwm Gwendraeth wedi cytuno ar hyn, ar yr amod bod y gât ar agor erbyn 6.15yb ar bedwar bore'r wythnos. Mae'r Clerc yn aros i dderbyn pris ffurfiol gan K. D. Landscaping am y gost ychwanegol o agor a chloi'r gât. Bydd y Clerc yn cyflwyno'r pris terfynol, ynghyd â'r ymateb, yng Nghyfarfod Cyffredin mis Mai.

**(d) Llechi TG ar gyfer busnes y cyngor.**

Mae'r Clerc wedi derbyn saith cais, a byddai'n annog unrhyw un arall sydd am dderbyn teclyn i wneud hynny'n hysbys; bydd y Clerc yn archebu'r llechi ym mis Mai 2024.

**Sylw;** Yn ystod y cyfarfod penderfynwyd bod angen wyth Llechen TG a dau yn sbâr. **Penderfynwyd** bod y Clerc yn archebu deg Llechen TG.

**(dd) Cynnal a Chadw'r Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

Unwaith eto mae'r cytundeb wedi'i ddyfarnu i Dynevor Tree Services, a oedd yn codi £2,000 yn llai na'r ail o'r tri dyfynbris a dderbyniwyd.

**(e) Torri'r Glaswellt yn y Parciau a Chynnal a Chadw'r Bowls:** Mae'r Clerc a'r Swyddog Gweinyddol wedi llunio'r cytundeb ac mae hwn wedi'i anfon at 5 contractwr posibl; disgwylir derbyn dyfynbrisiau yn yr wythnos a ddaw i ben ar Ebrill 26ain

**(f) Banc Y Ddraenen**

Mae'r posteri yn awr yn cael eu dosbarthu fel bod modd i'r cyhoedd gynnig adborth fel rhan o'n hymarfer ymgynghori cyhoeddus. Yna, bydd y Clerc yn ystyried y cyllid sydd ar gael ar gyfer y prosiect, a symud ymlaen gydag Un Llais Cymru a Chyngor Sir Caerfyrddin.

**(ff) Y Cynllun Busnes Rheoli Asedau.**

Mae'r Clerc yn dal i weithio ar hyn, a bydd yn dod â'r gwaith i ben unwaith ei fod wedi cwblhau Archwiliad Mewnol 2023/24.

**(g) Paratoi ar gyfer yr Archwiliad Mewnol.**

Cadeirydd

Erbyn hyn mae'r gwaith paratoi bron ar ben ac mae'r Clerc yn disgwyl cwrdd â'r Archwilydd Mewnol yn gynnar ym mis Mai 2024.

**(ng) Ein harchifau.**

Yn unol â'r hyn a gytunwyd gan y cyngor yn y Cyfarfod Cyffredin a gynhaliwyd ar Fawrth 27ain, mae'r Clerc nawr wedi cysylltu â'r swyddogion, a bydd yn cwrdd â nhw yn gynnar ym mis Mai.

**(h) Darlleniadau mesurydd a chostau trydan yn y Pafiliwn Bowlio a Thenis.**

Bydd y Clerc yn cyflwyno taenlen yn amlygu'r costau ychwanegol a godwyd oherwydd cost y Llifoleuadau yn ystod misoedd y gaeaf.

**(i) Teledu Cylch Cyfyng Parc Saron.**

Yn unol â'r hyn a gytunwyd gan y cyngor yn y Cyfarfod Cyffredin, a gynhaliwyd ar Fawrth 27ain, mae'r Clerc wedi gofyn am dri dyfynbris ac eisoes wedi derbyn un ymateb; disgwylir derbyn ymatebion i'r ddau arall.

**(l) Etholiad yn Ward Saron.**

Mae'r etholiad wedi'i drefnu i'w gynnal ar ddydd Mercher, Mai 15th, 2024; mae pedwar ymgeisydd yn sefyll, a disgrifir nhw fel a ganlyn: dau o Blaid Cymru, un ymgeisydd annibynnol, sydd ar hyn o bryd yn aelod o blaid Gwlad, ac un ymgeisydd y Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/ The Welsh Liberal Democrats.

Dai Nicholas – Clerc

Ebrill 17eg 2024

**445.**

**Diweddariad Gilfach Iago**

Cadarnhaodd y Clerc nad oedd unrhyw ddiweddariad pellach i'w gofnodi.
Cadarnhawyd hyn gan y Cynghorydd D. Thomas.

**Penderfynwyd** bod y Clerc yn adrodd yn ôl ynghylch unrhyw gynnydd i

Gyfarfodydd Cyffredin yn y dyfodol.

**446.**

**MATERION ARIANNOL**

______________________________
Cadeirydd

Dosbarthwyd yr wybodaeth ariannol canlynol gan y Clerc tridiau cyn y cyfarfod:

**INCWM ar Ebrill 17, 2024**

| PENNAWD | CYLLIDEB | INCWM GWIRIONEDDOL | GWAHANIAETH | NODIADAU |
|---|---|---|---|---|
| Prasept | 180000.00 | 180000.00 | **0.00** | |
| Ffurflen TAW (Ad-daliad) | 12000.00 | 9863.32 | **-2136.68** | **11,260.63 I'W HAWLIO** |
| Llog banc | 800.00 | 7014.80 | **6214.80** | |
| Cytundebau Llogi/Grantiau | 7700.00 | 16516.86 | **8816.86** | **Hawliau Tramwy Cyngor Sir Caerfyrddin Talwyd £3,000 ar Ebrill 2il, 2024** |
| **Cyfanswm** | 200500.00 | 213394.98 | **12894.98** | |

**GWARIANT**

| PENNAWD | CYLLIDEB | INCWM GWIRIONEDDOL | GWAHANIAETH | NODIADAU |
|---|---|---|---|---|
| Torri'r glaswellt | £54,000.00 | £39,495.35 | **£14,504.65** | |
| Cyflogau staff a PAYE | £51,225.00 | £49,462.19 | **£1,762.81** | |
| Gwasanaethau swyddfa | £12,350.00 | £13,311.21 | **-£961.21** | |
| Yswiriant | £2,500.00 | £0.00 | **£2,500.00** | |
| Grantiau Ariannol (Mannau Agored, Neuaddau, Mynwentydd) | £20,000.00 | £9,850.00 | **£10,150.00** | |
| Cynnal a Chadw Asedau (Cyfleusterau Cyhoeddus, adeiladau, parciau, hawliau tramwy cyhoeddus, claddfeydd) | £33,550.00 | £36,032.65 | **-£2,482.65** | |
| Gwasanaethau a Thanysgrifiadau | £2,300.00 | £2,488.00 | **-£188.00** | |
| Lwfansau'r Aelodau a PAYE | £7,134.00 | £6,993.00 | **£141.00** | |
| Costau etholiad | £10,000.00 | £18,999.26 | **-£8,999.26** | |
| Adran 137 | £10,000.00 | £6,100.00 | **£3,900.00** | |
| TAW | £12,000.00 | £5,206.00 | **£6,794.00** | |

Cadeirydd

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu Cymunedol | £42,000.00 | £65,118.00 | -£23,118.00 | £28,000 106 yn yr arfaeth Ebrill/Mai 2024 |
| **Cyfanswm** | £257,059.00 | £253,055.66 | **-£4,003.34** | |

**Taliadau hyd at ddiwedd Mawrth 2024.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 27/03/2024 | Arlein | Y Cyng Huw Davies - Lwfans Blynyddol Cynghorydd a Mynychu Cyfarfodydd 2023/24 | 261.00 |
| 27/03/2024 | Arlein | Y Cyng G J Davies - Lwfans Blynyddol Cynghorydd a Mynychu Cyfarfodydd 2023/24 | 306.00 |
| 27/03/2024 | Arlein | Y Cyng A J Evans - Lwfans Blynyddol Cynghorydd a Mynychu Cyfarfodydd 2023/24 | 486.00 |
| 27/03/2024 | Arlein | Y Cyng K D L Davies - Lwfans Blynyddol Cynghorydd a Mynychu Cyfarfodydd 2023/24 | 366.00 |
| 27/03/2024 | Arlein | Y Cyng E W Nicholas - Lwfans Blynyddol Cynghorydd a Mynychu Cyfarfodydd 2023/24 | 366.00 |
| 27/03/2024 | Arlein | Y Cyng P H Roberts - Lwfans Blynyddol Cynghorydd a Mynychu Cyfarfodydd 2023/24 | 456.00 |
| 27/03/2024 | Arlein | Y Cyng C R Thomas – Lwfans Blynyddol Cynghorydd a Lwfans Cadeirydd 2023/24 | 1046.00 |
| 27/03/2024 | Arlein | Y Cyng D O Thomas - Lwfans Blynyddol Cynghorydd a Mynychu Cyfarfodydd 2023/24 | 456.00 |
| 27/03/2024 | Arlein | Y Cyng J E Davies - Lwfans Blynyddol Cynghorydd a Mynychu Cyfarfodydd 2023/24 | 235.00 |
| 27/03/2024 | 6387 | Y Cyng R A Davies - Lwfans Blynyddol Cynghorydd a Mynychu Cyfarfodydd 2023/24 | 411.00 |
| 27/03/2024 | 6388 | Y Cyng S Roberts - Lwfans Blynyddol Cynghorydd a Mynychu Cyfarfodydd 2023/24 | 411.00 |
| 27/03/2024 | 6389 | Y Cyng R Barnes - Lwfans Blynyddol Cynghorydd a Mynychu Cyfarfodydd 2023/24 | 381.00 |
| 27/03/2024 | 6390 | Y Cyng D Hopkins – Lwfans Blynyddol Cynghorydd a Lwfans yr Is-Gadeirydd 2023/24 | 1031.00 |
| 27/03/2024 | 6391 | Y Cyng I Rh Llewelyn - Lwfans Blynyddol Cynghorydd a Mynychu Cyfarfodydd 2023/24 | 291.00 |
| 28/03/2024 | Arlein | Y Cyng S E Thomas - Lwfans Blynyddol Cynghorydd a Mynychu Cyfarfodydd 2023/24 | 276.00 |
| 28/03/2024 | Arlein | Hefin Jones – Cyfieithu Ionawr/Chwefror/Mawrth | 170.00 |
| 28/03/2024 | Arlein | Cyngor Sir Caerfyrddin - 97551960 | 6463.30 |
| 28/03/2024 | Arlein | Martin Davies - 27/02/2024 | 241.06 |
| 28/03/2024 | 6406 | Grant i Neuadd Goffa Penygroes 15/02/2024 | 4000.00 |

**Taliadau hyd at Fawrth 17eg yn y flwyddyn gyfrifo newydd:**

- Cyngor Sir Caerfyrddin, Goleuo a chyfleustodau - £6,463.30
- Mrs S E Thomas, Lwfans Cynghorydd - £276.00

Cadeirydd

- Hefin Jones, Cyfieithu mewn dau gyfarfod misol - £170.00
- J. Tandy, Lwfans Cynghorydd - £381.00
- EDF Energy, Pafiliwn Bowlio a Thenis Llandybïe - £463.63
- EDF Energy, Pafiliwn Bowlio a Thenis gan gynnwys y Llifoleuadau yn ystod y gaeaf - £457.19
- EDF Energy, Pafiliwn Chwaraeon Saron - £46.63
- EDF Energy, Llifoleuadau Capel Hendre - £21.57
- EDF Energy, Pafiliwn Penygroes - £29.24
- EDF Energy, Pafiliwn Heol Woodfield, trydan oriau allfrig - £36.00
- EDF Energy, Sied Llandybïe - £32.21
- Sian Taylor, Costau Teithio a Threuliau, Tachwedd, Rhagfyr, Ionawr, Chwefror, Mawrth - £272.95
- Sian Taylor, Cyflog, gan gynnwys ôl-daliad ar gyfradd SC5 hyd at Awst - £1235.61
- Cofnodion Pwyllgor yr Amgylchedd a'r Pwyllgor Cyllid, 15/02/24 - £152.68
- Cofnodion y Cyfarfodydd Cyffredin a Chynllunio, 27/03/24 - £233.74
- Cyfieithu'r Rheolau Sefydlog newydd - £478.25
- Cacennau Campbell Cakes, Rhian Campbell, Bwffé ar y Noson Fawr - £326.00

**Yn yr arfaeth ar Ebrill 17eg, 2024:**

- A Jones, Lwfans Cynghorydd - £336.00
- Cyngor Sir Caerfyrddin, Cynnal a Chadw'r Tiroedd - £8,613.25
- Morgan & Morgan, Tanysgrifiad Misol Band Llydan Ffeibr

  SOGEA 80/20 Cytundeb 12 mis £35.99
- Ffi Diogelu Data ICO - £40.00
- Dinefwr Electrical - £181.00
- Costau Etholiad Gorffennaf 2023 - £8,028.26
- Cloc y Chwarel, Chapel Smith of Derby - £210.00
- Harcourt Litho, Posteri ar gyfer Banc Y Ddraenen - £277.13
- Swyddfa Archwilio Cymru, ffioedd archwiliad 2021/22 £661.00

____________________________

Cadeirydd

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CYNGOR CYMUNED LLANDYBÏE COMMUNITY COUNCIL | | | | | | |
| Mantolen 2023-2024 / Cyfrifon oddiar Ebrill 1af, 2024 | | | | | | |
| | | | | | | |
| Paratowyd gan - D Nicholas | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| Y flwyddyn ariannol a ddaw i ben 31/3/2024 | | | | | | |
| BALANS Y CYFRIFON | | | | | | |
| | | | | | | £ |
| Taenlen Gyllid | | | | | Balans o’r Llyfr Arian Parod £279,663.56 | |
| Dygwyd ymlaen (balans cychwynnol yn y banc) gan gynnwys sieciau na’s cyflwynwyd | | | | | | £312,607.63 |
| | | | | | | |
| Ychwanegu incwm yn ystod y flwyddyn | | | | | | £213,394.98 |
| | | | | | | |
| Cyfanswm | | | | | | £526,002.61 |
| | | | | | | |
| Llai y gwariant | | | | | | £258,212.96 |
| | | | | | | |
| Balans wrth Gau’r Daenlen Gyllid | | | | | | £267,789.65 |
| (derbyniadau - taliadau) | | | | | | |
| | | | | | | |
| Taliadau/ Sieciau na’s cyflwynwyd | | | | | | £7,801.54 |
| | | | | | | |
| GWIR FALANS Y DATGANIAD | | | | | | £267,789.65 |

Roedd y Clerc wedi gorffen gan gydnabod pryderon y Cyng R. A. Davies a’r Cyng A. W. Jones drwy alwad ffôn ac ebost y dylai gywiro’r cofnod ar gyfer Neuadd Goffa Penygroes i adlewyrchu’r ffaith taw ‘grant’ oedd yr arian ac nid ‘cost llogi’. Eglurodd y Clerc bod hyn yn wall teipio.

Roedd y Clerc hefyd wedi cydnabod sylwadau’r Cyng S. E. Davies bod y cofnod am dreuliau dau Gynghorydd yn gamarweiniol; roedd y Clerc wedi cynnig cywiro’r cofnod i ddarllen ‘Lwfansau Blynyddol y Cadeirydd a’r Is-Gadeirydd’.

Gofynnodd y Cyng E. Davies am eglurhad ynghylch PAYE sy’n berthnasol i daliadau Lwfans Cynghorydd gan fod y cofnodion braidd yn amwys. Cynigiodd y Clerc ofyn cyngor Un Llais Cymru ynghylch y geiriad priodol, ac i ddosbarthu hyn i bob Cynghorydd.

**Penderfynodd** yr Aelodau ofyn bod y Clerc yn cywiro’r cofnodion, ac i gymeradwyo bod y gyllideb a’r taliadau yn gwbl gywir.

**447.**

**Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2023/24**

Cadeirydd

Roedd y Cadeirydd, y Cynghorydd C. R. Thomas, wedi darllen ei hadroddiad blynyddol, a gynhwysir isod. Roedd y Cynghorydd S. E. Thomas am iddo gael ei nodi taw dyma un o'r adroddiadau gorau yr oedd wedi gwrando arno, a gofynnodd os oedd modd ei anfon fel datganiad i'r wasg. Roedd y Clerc wedi cynnig anfon yr adroddiad at rifynnau cylchgrawn Cymraeg a Saesneg.

"Mae wedi bod yn anrhydedd gweithredu fel Cadeirydd Cyngor Cymuned Llandybïe yn ystod 2023/2024. Mae'r daith ar y cromlin dysgu o ran yr ochr weithdrefnol a statudol o fod yn Gadeirydd ar Gyngor Cymuned wedi bod yn brofiad diddorol a gwerthfawr, a dw i wedi cael y fraint o gwrdd â rhai o'r pencampwyr cymunedol gweithgar sy'n rhan o'n cymunedau.

Mae gwaith y Cyngor Cymuned wedi gweld cyflawniadau positif yn cael eu gwneud ar gyfer y bobl yn ein cymunedau, ac hoffwn nodi'r canlynol:

**Iechyd a Lles**:

Mae'r gwaith cynnal a chadw, mewn cydweithrediad â Chyngor Sir Caerfyrddin, i dros 90 o hawliau tramwy cyhoeddus, yn golygu ein bod yn cadw mynediad at ein cefn gwlad hyfryd ac, i ategu at hyn a'n gweledigaeth o ran iechyd a lles, 'rydym wedi gosod cyfleusterau campfa awyr agored fel bod gan y gymuned gyfan fynediad at offer ffitrwydd. Mae wedi bod yn bosibl gwneud hyn drwy ddefnyddio cymysgedd o'r gyllideb gwella cymunedol ac arian grant Adran 106, gan uwchraddio'r Ardal Gemau Aml-Ddefnydd a gosod adnodd Trampolîn Bownsio Bach.

**Hygyrchedd:**

'Rydym wedi bod yn gwneud gwelliannau i'r 11 parc yn y ward gan gynnwys gosod gatiau mynediad ym Mharciau Penygroes a Llandybïe a gosod ardal bicnic gyda ramp hygyrchedd yn yr olaf; rhaid nodi bod y trampolîn bownsio bach hefyd yn gwbl hygyrch i'r rhai hynny o amrywiol alluoedd.

**Cynnal a chadw gwasnaethau:**

Mae'r cyfleusterau cyhoeddus yn Llandybïe a Phenygroes yn dal ar agor, ac mae ein rhaglen o gynnal a chadw blynyddol yn parhau er mwyn sicrhau bod ein stoc adeiladau yn parhau mewn cyflwr da.

**Gwella'n cymwysterau gwyrdd:**

Yn ystod fy nghyfnod fel Cadeirydd 'rydym wedi cyflwyno polisi bancio digidol a pholisi swyddfa a chyfarfodydd ddi-bapur, gan olygu ein bod benderfynol o gyfyngu ar ein defnydd o bapur a chefnogi'n hamgylchedd, tra'n dilyn polisïau amgylcheddol a fydd yn gwyrddio'n cymunedau.

**Cefnogi'n grwpiau cymunedol allweddol:**

Roedd hi'n rhoi pleser mawr imi gadeirio'r pwyllgorau cyllid ac, yn y rôl honno, 'rwyf wedi goruchwylio dyfarnu grantiau cymunedol sydd mawr eu hangen i gefnogi gwaith gwirfoddolwyr a grwpiau sy'n darparu gwasanaethau ac adnoddau allweddol,

Cadeirydd

gwaith sy'n anadl einioes i lawer yn ein cymunedau. Roedd ein nosweithiau cyflwyno yn Saron a Phenygroes yn gyfle i ddathlu a chefnogi'r grwpiau hynny.

**Parciau a mannau chwarae yn ein cymuned:**

'Rydym yn dal i ddarparu ardaloedd chwarae diogel a chynhwysol am iechyd a rhyngweithio cymdeithasol ar gyfer ein pobl ifanc ar draws 11 parc, ac yn parhau i fuddsoddi mewn cynnal a chadw a gwella'n cyfleusterau, a gwneud hynny i safon uchel. Yn ddiweddar, roeddwn wedi cymeradwyo uwchraddio'r siglenni yn Heol Spien a Gors Ddu ym Mhenygroes a, gyda chefnogaeth ein hysgolion cynradd lleol, y Cyngor Sir a phreswylwyr lleol, 'rydym wedi cychwyn prosiect adfywio Parc Capel Hendre.

**Y Gymuned yn ei chyfanrwydd:**

Mae ar y Cyngor Cymuned ddyletswydd i gyhoeddi cynllun blynyddol, gan gynnwys cynllun gweithredu cymunedol sy'n ategu at y gwaith ar bob lefel. Mae gofyn gwneud hyn er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) adran 40(1), ac mae'n cysylltu'n uniongyrchol gydag amcanion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gâr a'r Amcanion Llesiant Cenedlaethol.

Ar nodyn personol, hoffwn ddweud ei bod wedi bod yn fraint o'r mwyaf i wasanaethu Cyngor Cymuned Llandybïe er, serch hynny, roedd y dasg yn un anodd iawn pan nad oedd y cynghorwyr yn parchu'r protocol o annerch trafodaethau'r cyngor drwy'r gadair. Hefyd, ar brydiau, nid oedd cynghorwyr yn parchu hawl eu cyfoedion i fynegi safbwynt gwahanol ac roedd gwleidyddiaeth pleidiol yn dod i'r amlwg, yn hytrach na bod pawb yn canolbwyntio ar anghenion y gymuned. Ar un adeg, roeddwn bron penderfynu ymddiswyddo o fod yn Gadeirydd ond, erbyn hyn, dw i'n teimlo bod y problemau hyn wedi'u datrys ac mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn awyrgylch sy'n dangos parch y naill ochr at y llall. Hoffwn hefyd ddiolch i'r Clerc a'r Swyddog Gweinyddol am eu gwaith caled a'u diwydrwydd.

Yn olaf, hoffwn ddymuno'n dda i'r Cadeirydd newydd, ac yn cynnig fy nghefnogaeth o ran y broses ymgyfarwyddo pan fydd yn cymryd yr awennau yn dilyn y Cyfarfod Statudol ym mis Mai.

Diolch yn fawr

**448.**

**Cyllid Adran 106.**

Nid oedd gan y Cynghorwyr Sir a oedd yn bresennol unrhyw wybodaeth bellach i'w gynnig.

**Ceisiadau ynghylch Seminarau / Cyfarfodydd ar y Cyd**

________________________

Cadeirydd

Ni chynigiwyd unrhyw wybodaeth.

**449.**

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

**Penderfynodd** yr Aelodau y dylid cynnal Cyfarfod Cyffredin nesaf y Cyngor ar ddydd Mercher, Mai 29ain, 2024.

**450.**

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach i'w drafod, daeth y **Cadeirydd â'r cyfarfod i ben** am 7.00 yh.

______________________________

Cadeirydd